

» Dilynwch y [cyngor ar gyfer coronafeirws \(COVID-19\)](#) a [chyfyngiadau lleol y coronafeirws](#)

[Hafan](#) > [Coronafeirws \(COVID-19\)](#) > [Addysg a gofal plant: coronafeirws](#) >

[Addysg bellach ac uwch: coronafeirws](#) > Addysg bellach a phrentisiaethau: canllawiau cyfnod atal byr coronafeirws

CANLLAWIAU

Addysg bellach a phrentisiaethau: canllawiau cyfnod atal byr coronafeirws

Canllawiau ar addysg bellach a phrentisiaethau yn ystod y cyfnod atal byr (o 6:00pm ddydd Gwener 23 Hydref).

Rhan o:
[Addysg bellach ac uwch: coronafeirws a Cymorth i'r rheini sy'n hyfforddi](#)

Cyhoeddwyd gyntaf:
22 Hydref 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
22 Hydref 2020

Cynnwys

[Prentisiaethau](#)

[Addysg bellach](#)

Prentisiaethau

Rwy'n gwneud prentisiaeth, beth fydd yr effaith ar hynny?

Siaradwch â'ch cyflogwr i weld a oes unrhyw gyfyngiadau sy'n golygu na allwch fynychu'r gweithle. Os ydych yn dal i weithio, gallwch barhau i weithio tuag at eich prentisiaeth. Dylai eich asesydd gadw mewn cysylltiad â chi yn ystod y cyfnod hwn, ond ni fydd yn gallu ymweld â chi rhwng 23 Hydref a 6 Tachwedd.

Os oeddech i fod i fynd i'r coleg ar gyfer hyfforddiant tu hwnt i'r gwaith rhwng 23 Hydref a 6 Tachwedd, bydd hynny'n cael ei symud ar-lein neu ei ohirio. Cysylltwch â'ch asesydd am gyngor pellach.

Rwy'n gwneud cwrs hyfforddeiaeth, beth fydd yr effaith ar hynny?

P'un a ydych mewn canolfan hyfforddi neu ar leoliad gwaith, bydd eich cwrs yn symud ar-lein am bythefnos yn unig gan ddechrau ar 26 Hydref. Bydd eich tiwtor yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi a dylai gadw mewn cysylltiad rheolaidd â chi. Os na allwch ddysgu ar-lein am unrhyw reswm, cysylltwch â'ch tiwtor, a ddylai allu rhoi trefniadau ar waith i chi barhau â'ch cwrs. Os oeddech i fod i ddechrau mewn lleoliad gwaith newydd rhwng 23 Hydref a 6 Tachwedd, bydd hyn yn cael ei ohirio nes i'r cyfyngiadau ddod i ben.

Pam fod cyrsiau coleg a hyfforddeiaethau yn symud i fod ar-lein yn unig dros y cyfnod hwn?

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion COVID-19. O ganlyniad, mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi cyfnod atal byr i helpu i sicrhau bod pobl yn aros gartref lle bynnag y bo modd, er mwyn rheoli lledaeniad y feirws. Bydd colegau a darparwyr hyfforddiant yn dysgu o bell yn ystod y cyfnod hwn, sy'n cynnwys gwylliau hanner tymor i ddysgwyr yn y coleg, fel y gall dysgwyr a staff aros gartref a helpu i gadw pawb yn ddiogel.

Addysg bellach

Dydw i ddim yn gallu dysgu ar-lein, beth ddylwn i ei wneud?

Siaradwch â'ch tiwtor neu asesydd. Efallai y bydd eich coleg neu'ch darparwr yn gallu helpu drwy fenthyg gliniadur i chi, neu os nad yw hyn yn bosibl, dylid rhoi gwaith i chi y gallwch ei gwblhau tra byddwch gartref.

Roeddwn yn bwriadu ailsefyll arholiadau TGAU yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd, a fydd rheini'n dal i fynd rhagddynt?

Bydd yr arholiadau ailsefyll TGAU yn dal i fynd rhagddynt yn ôl y bwriad, ac fe fyddwch yn gallu mynd i'r coleg ar gyfer eich arholiad. Mae hyn yn wir hefyd am arholiadau mynediad prifysgolion. Cysylltwch â'ch coleg i gael rhagor o wybodaeth am drefniadau arholiadau.

Cyhoeddwyd gyntaf

22 Hydref 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

22 Hydref 2020

Rhan o

[Addysg bellach ac uwch: coronafeirws](#)

[Cymorth i'r rheini sy'n hyfforddi](#)

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

← Rhannu'r dudalen hon

^ Nôl i dop y dudalen